

**Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)**  
**Cyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gasglu Data a Monitro**  
**Future Inns, Bae Caerdydd**  
**19 Medi 2019**  
**Crynodeb o'r cyfarfod**

**1. Croeso a chyflwyniadau**

Estynnodd Llywodraeth Cymru groeso i'r sawl a oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

**2. Diweddariad ynghylch y Bil**

Rhoddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad ynghylch sefyllfa bresennol y Bil ac ynghylch gwaith y grwpiau gorchwyl a gorffen eraill.

**3. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a'r cylch gwaith**

Cytunwyd ar y cylch gwaith a chytunwyd bod cofnodion cyfarfod mis Gorffennaf yn gywir. Byddai Llywodraeth Cymru yn gwahodd cynrychiolwyr o'r sector addysg i'r grŵp hwn.

**4. Adborth o'r ymarfer i fapio systemau a phrosesau presennol sefydliadau**

Cafwyd trafodaeth ynghylch y systemau a'r prosesau presennol ar gyfer casglu a chofnodi ar draws yr amryw sefydliadau lle gallai fod yn ofynnol casglu data er mwyn monitro'r effaith ar wasanaethau. Tynnodd y drafodaeth sylw at yr effeithiau posibl ac at adnoddau a phwyntiau casglu data perthnasol a phresennol.

O ran y data y mae'r heddlu yn ei gasglu ar hyn o bryd, a'r data ychwanegol y gallai fod angen ei gasglu yn y dyfodol, cytunwyd y dylai Llywodraeth Cymru gwrdd â dadansoddwyr o bob un o'r heddluoedd er mwyn meithrin dealltwriaeth fanylach o'r systemau a ddefnyddir ar hyn o bryd, gan gynnwys systemau rheoli troseddu. Yna, byddai manteision ac anfanteision pob un o'r opsiynau posibl ar gyfer casglu data'r heddlu yn cael eu hystyried gan y grŵp mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Cafodd y prosesau a'r pwyntiau casglu data presennol yn y sefydliadau eraill a gâi eu cynrychioli yn y cyfarfod – sef gwasanaethau cymdeithasol, Cafcass Cymru a Gwasanaeth Erlyn y Goron – eu trafod hefyd, a chytunwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r partneriaid hynny ar opsiynau ar gyfer systemau a dulliau o gasglu data.

**5. Trafodaeth grŵp ynghylch y materion a oedd yn codi**

Cafwyd trafodaeth grŵp ynghylch y materion a oedd yn codi. Trafodwyd nifer yr adroddiadau a'r atgyfeiriadau ynghylch cosbi plant yn gorfforol, eglurder y diffiniadau o ddata a'r problemau sy'n ymwneud â dyblygu data (hy mewn rhai amgylchiadau gallai'r un digwyddiad gael ei gofnodi fwy nag unwaith, ee gan wasanaethau cymdeithasol yng nghyswllt y plentyn a oedd yn rhan o'r digwyddiad ac yng nghyswllt ei frodyr a'i chwiorydd hefyd). Cytunwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn

cael trafodaethau pellach â phartneriaid ynghylch y broblem sy'n ymwneud â dyblygu data ac y byddai'n cynnwys y mater ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol. At hynny, dylai'r aelodau i gyd ddarparu manylion pellach am y data y maent yn ei gasglu ar hyn o bryd ac am y data y maent o'r farn y gallent ei gasglu pe bai'r gyfraith yn newid, er mwyn cofnodi gwybodaeth am niferoedd yr achosion o gosbi plant yn gorfforol.

### Costau

Cafwyd trafodaeth ynghylch costau posibl newidiadau i systemau (os bydd angen gwneud newidiadau). Ar hyn o bryd, mae sefydliadau'n gwneud newidiadau fel mater o drefn i systemau er mwyn cofnodi data. Cytunodd Llywodraeth Cymru i drafod hynny ymhellach ag aelodau unigol o'r grŵp.

### **6. Camau nesaf/Cynllun ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol**

Cytunwyd y byddai'r opsiynau ar gyfer casglu data'r heddlu yn cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf, yn dilyn cyfarfodydd rhwng Llywodraeth Cymru a'r heddlu. Byddai trafodaeth bellach yn cael ei chynnal hefyd ynghylch y diffiniadau o ddata.